

## Eisteddfod yr Urdd – 2018

### Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

---

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

*NIN*

*Mae tair rhan i gerdd NIN. Yn y rhan gyntaf, sef 'Rhwygo'r Muriau Duon', cawn ddarlun o unigolyn ynghudd yn ei stafell ac yn gaeth i gyffuriau'r oes – ffôn clyfar, rhaglenni realiti, Instagram. Mae'r stafell, chwedl y bardd, 'yn llawn o'm gwacter i', ac mae rhyddid diddiwedd y we'n cadw'r unigolyn yn gaeth, ond ar ddiwedd y gerdd mae'n teimlo rhyw agoriad, fel petai llen yn agor ar fyd amgenach a dwylo'n ymddangos i godi'r unigolyn o'i gornel. Yna, yn yr ail ran, y stryd fawr yn ei thrueni a welwn, a '[ch]erddorfa fud' o bobl yn erfyn am arian ond yn cael eu hanwybyddu, cyn inni gyrraedd y drydedd ran, 'Plentyndod', sef rhan orau'r gerdd yn ddiamau, lle mae'r bardd yn gweld bro ei febyd ac 'enfys plentyndod' lle mae'r 'glaswellt yn lasach'. Ardal chwarelyddol, amherffaith yw hon, lle mae'r 'llethrau'n llwythog dan lechi pydredig enwau angof', ond mae yma ryddhad i'r bardd – am ryw hyd, beth bynnag. Cyn hir, mae'r rhith yn diflannu, a dychwelwn at fyd 'picselaidd' y rhan gyntaf. Dyma fardd a chanddo gryn addewid, ac mae'n drueni bod y gerdd yn cael ei difetha gan ambell linell hir, ddi-rythm a thrwsgl; ar ei orau, mae'n sefyll gyfysgwydd â goreuon y gystadleuaeth.*